**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**23 IONAWR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 23 Ionawr 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid; Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd; ac Adele Davies-Cooke

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y Cynghorydd Patrick Heesom fel sylwedydd

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Cyfrifydd; Rheolwr Tîm Gwaith Cyfalaf; ac Uwch Swyddog Tai Gwarchod

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 49. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Palmer gysylltiad personol ag Eitem rhif 4 ar y Rhaglen, 'Cyfrif Refeniw Tai 2019-20' gan ei fod yn denant Cyngor.

## 50. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2018.

Cofnod rhif 37: Cymunedau am Waith – Gofynnodd y Cynghorydd Palmer i'w sylwadau gael eu cynnwys, am yr angen i gytuno ar gylch gorchwyl iawn cyn penodi Rheolwr Canol Tref/Swyddog Adfywio er mwyn sicrhau nad oeddent yn cael eu difrïo am beidio â gwneud y gwaith o fewn yr hinsawdd bresennol.

Cofnod rhif 38: Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a Chynllun Gweithredu Lleol – Gofynnodd y Cynghorydd i'w sylwadau gael eu cynnwys, bod darpariaeth ar gael wedi i berthynas ddod i ben.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**51. CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA) 2019/20, NARATIF A CHRYNODEB CYNLLUN BUSNES HRA, CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD HRA**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad yn ystyried cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer 2019/20, naratif a chrynodeb Cynllun Busnes HRA a Chynllun Busnes ariannol 30 blynedd HRA.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cyflawniadau HRA 2018/19
- Rhaglen adeiladu tai y cyngor
- Cynllun busnes 30 mlynedd
- Cyllideb 2019/20
    - Incwm
    - Taliadau gwasanaeth 2019/20
    - Cynigion effeithlonrwydd HRA a'r defnydd o gyllid untro
    - Penderfyniadau buddsoddi HRA arfaethedig a phwysau o ran cost
- Rhaglen gyfalaf y HRA 2019/20
- Gweithgarwch HRA yn y dyfodol

Ymysg nifer o gyflawniadau allweddol oedd perfformiad y Cyngor ar brentisiaethau a safonau gwasanaethu nwy a gefnogwyd drwy Safon Ansawdd Tai Cymru a Rhaglen Adfywio a Thai Strategol. Bydd darparu'r olaf yn cael ei wella ymhellach os llwydda'r Cyngor i ddenu cyllid grant Llywodraeth Cymru tuag at gynllun rhandai fforddiadwy yn Garden City.

Eglurodd y Cyfrifydd y rhagdybiaethau allweddol ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cynnydd arfaethedig o £1 yr wythnos ar gyfer rhenti garejys a £0.20 yr wythnos ar gyfer rhenti plotiau garejys. Ni chynigwyd newidiadau ar gyfer taliadau gwasanaeth tra'r oedd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflawni. Rhoddwyd eglurhad dros y newidiadau i gyllid HRA ers y flwyddyn flaenorol a phenderfyniadau buddsoddi HRA arfaethedig a phwysau costau sy'n arwain at gyfraniad rhagamcanol o £0.158 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn.

Darparodd Rheolwr Tîm Rhaglen Gyfalaf wybodaeth ar y mathau o waith o fewn Rhaglen Gyfalaf HRA lle'r oedd canolbwynt ar Safon Ansawdd Tai Cymru yn newid er mwyn cynnwys gwaith amgylcheddol.

Canmolodd y Cadeirydd gyflawniadau'r HRA a groesawyd gan y tenantiaid.

Cafodd hyn ei adleisio gan y Cynghorydd Shotton a ofynnodd i Aelodau dderbyn diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru. Cytunodd y Prif Swyddog y bydd y rhaglen ar sail ardal yn cael ei rannu, unwaith y caiff ei ddiweddaru. Ar gais i Aelodau gyfarfod â swyddogion Tai, awgrymodd y Cynghorydd Attridge y dylid trefnu sesiwn galw heibio ar ôl i'r adolygiad ddod i ben.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dolphin, darparodd y Prif Swyddog fanylion ar yr adolygiad o'r garejys. Cytunodd i ddosbarthu ymateb ar y

nifer o Brentisiaethau a benodwyd i swyddi llawn amser ac ymchwilio i adroddiadau am fan y Cyngor sydd wedi'i barcio yng Ngharmel.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr Dolphin a Hardcastle, amlinellodd Rheolwr Tîm Gwaith Cyfalaf y dosbarthiadau amrywiol ar gyfer 'methiannau derbyniol' yn Safon Ansawdd Tai Cymru, a dywedodd bod gwiriadau'n cael eu cyflawni i asesu cyflwr yr eiddo hynny. Mae'r ymarfer o wiriadau cyn asesu yn helpu i ganfod unrhyw gyflyrau meddygol sydd gan y tenant, fel y gellid cydlynu gwaith yn y ffordd fwyaf priodol.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Reece, cadarnhawyd bod eiddo brics soled wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith allanol.

Canmolodd y Cynghorydd Davies y gwaith a gyflawnwyd yn Melrose Court. Pan ofynnwyd am ganlyniad yr adolygiad garejys, gofynnodd y Cynghorydd Attridge i swyddogion rannu'r rhaglen waith gydag Aelodau.

O ran Safon Ansawdd Tai Cymru, gofynnodd y Cynghorydd Palmer sawl eiddo oedd wedi bodloni'r Safon a sawl un oedd ar ôl i'w gwblhau cyn 2020. Dywedodd y Rheolwr Tîm bod holl waith uwchraddio cydrannau wedi eu cwblhau mewn oddeutu 1,200 eiddo, a disgwylir i'r gweddill gael eu cwblhau erbyn y dyddiad cau. Cytunodd y byddai'n rhannu'r ffigyrau a oedd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

Wrth groesawu'r gwaith ar y safleoedd garej, dywedodd y Cynghorydd Hughes bod hyn wedi arwain ar broblemau parcio mewn rhai ardaloedd. Pan ofynnwyd am osod cyrbau is tu allan i eiddo, dywedodd y Cynghorydd Attridge bod preswylwyr preifat yn gallu trefnu eu contractwr eu hunain, yn amodol eu bod yn bodloni'r meini prawf sydd ar gael drwy Oruchwylwyr Strydwedd.

O ran y rhaglen SHARP, dywedodd y Cynghorydd Attridge bod safleoedd posibl eraill yn cael eu harchwilio ar gyfer datblygu, yn cynnwys Bwcle. Anogodd y Prif Swyddog i Aelodau ddod ymlaen gydag unrhyw awgrymiadau am safleoedd addas.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cyllideb y cyfrif refeniw tai a'r cynllun busnes ar gyfer 2019/20, fel y nodir yn yr adroddiad;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn rhent o hyd at 2.4% (a hyd at £2);

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnydd o £1 yr wythnos mewn rhenti garejys a chynnydd o £0.20 yr wythnos mewn rhenti plotiau garejys; a

(d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai arfaethedig ar gyfer 2019/20 fel y nodwyd yn Atodiad C.

## 52. ADOLYGIAD LLETY GWARCHOD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad ar yr adolygiad arfaethedig o lety gwarchod o fewn cyd-destun galw cynyddol am dai cymdeithasol ar draws Sir y Fflint; cynnydd yn nifer y bobl gydag anableddau corfforol; a'r egwyddor strategol yn y Strategaeth Dai ddrafft o wneud y mwyaf o'r stoc bresennol.

Crynhodd y Prif Swyddog y data amrywiol sy'n sail i'r adroddiad, yn cynnwys y rhesymau dros dai gwag, sefydlu cysylltiadau cludiant effeithiol ac archwilio technoleg newydd i gefnogi preswylwyr i fyw yn eu llety cyhyd ag sy'n ymarferol. Gofynnwyd am safbwyntiau ar y cynnig i alinio meini prawf oedran y Cyngor gyda meini prawf partneriaid Cymdeithas Tai Un Llwybr Mynediad at Dai, h.y. dros 55 oed.

Er ei fod yn deall y rhesymau dros newid yr ystod oedran, mynegodd y Cynghorydd Palmer bryderon na ddylai hyn fod ar draul y rhai 50-55 oed. Awgrymodd y Prif Swyddog mai dull teg fyddai adolygu'r ymgeiswyr yn yr ystod oedran honno sydd ar gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai ar hyn o bryd, er mwyn osgoi eu rhoi dan anfantais, cyn cytuno ar dorbwynt.

Wrth nodi bod hyn yn benderfyniad anodd, siaradodd y Cynghorydd Shotton mewn cefnogaeth o'r newid arfaethedig. Dywedodd y Cynghorydd Attridge bod y broses Un Llwybr Mynediad at Dai wedi gwella llawer ers ei gyflwyno, a rhoddodd sicrwydd y bydd darpariaeth ar gyfer bobl hŷn sydd fwyaf mewn angen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at y blociau o randai a ddatblygwyd gan Dai Wales & West a all fod yn addas ar gyfer unigolion dros 50 sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Hardcastle, darparodd yr Uwch Swyddog Tai Gwarchod eglurhad ar ailgylchu offer symudedd lle nad oedd eiddo oedd wedi cael ei addasu yn gallu cael ei gydweddu gydag ymgeiswyr ar y gofrestr tai arbenigol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi addasu cymhwysedd holl grwpiau bychain a chynlluniau gwarchod i 55 oed gyda'r bwriad o ddod â hwy'n unol â Chymdeithasau Tai a phartneriaid Un Llwybr Mynediad at Dai yr Awdurdod Lleol, yn amodol ar adolygu ceisiadau cyfredol pobl rhwng 50 a 55 oed; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cwmpas adolygiad swyddog fel yr amlinellir o fewn yr adroddiad.

## 53. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Raglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried ac fe gytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Bod adroddiad tai arbenigol yn cael ei ddwyn ymlaen o fis Mawrth i'r cyfarfod arbennig ar 18 Chwefror.
- Cynnwys diweddariad ar ôl-ddyledion rhent ym mis Chwefror, gyda diweddariad bob chwarter o hynny 'mlaen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**54. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.05am)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**